

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

HYSBYSIR TRWY HYN yn unol ag Adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu peidio â chynnal Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Tremoilet, Tremoilet, Pentywyn, SA33 4PJ. Cynhelir yr ysgol ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Y bwriad yw rhoi'r cynnig ar waith ar 28 Ebrill 2019.

Nid oedd dim disgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Tremoilet ar 15 Ionawr 2019 (adeg cynnal cyfrifiad ysgolion mis Ionawr).

Cynigir bod dalgylch Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Tremoilet, o 29 Ebrill 2019, yn cael ei ailddynodi a'i gynnwys yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo, Llanmilo, Pentywyn, SA33 4TU.

Ysgol Gynradd Gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo.

Ni fydd angen cymryd unrhyw gamau eraill i gynyddu nifer y lleoedd.

Darperir cludiant yn unol â pholisi Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Bydd y trefniadau o ran trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn aros fel y maent ar hyn o bryd.

Ystyrir mai gweithredu'r cynnig i beidio â chynnal Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Tremoilet yw'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r rhesymau a nodwyd wrth lunio'r cynnig oherwydd y ffactorau canlynol:

- Digon o le yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo i dderbyn pob disgybl o Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Tremoilet.
- Effaith gadarnhaol ar leihau nifer y lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo
- Cefnogi Egwyddorion Ôl Troed Addysg Gynradd Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 1 Ebrill 2019, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mr Gareth Morgans, Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu gellir anfon neges e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk

Llofnod: Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiedig: 5 Mawrth 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn cynyddu eglurder)

1. Os oes gan ysgol lai na 10 o ddisgyblion ar y gofrestr (neu os nad oes dim disgyblion ar gofrestr yr ysgol) adeg cynnal cyfrifiad ysgolion mis Ionawr, mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn caniatáu i'r awdurdod lleol roi ar waith y gweithdrefnau wedi eu symleiddio i gau'r ysgol yn swyddogol. Rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad statudol ond mae'r gofyniad i gael ymgynghoriad cyffredinol yn cael ei hepgor, ar yr amod bod lleoedd cyfatebol digonol mewn ysgolion wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r rheiny sydd wedi'u symud neu y mae posibilrwydd y byddant yn cael eu symud. Nid oedd dim disgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Tremoilet adeg cynnal cyfrifiad ysgolion Ionawr 2019.
2. Bwriad yr Awdurdod yw rhoi'r gorau i gynnal Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Tremoilet ar 28 Ebrill 2019, i wneud darpariaeth i'r disgyblion hynny sy'n byw yn nalgylch presennol yr ysgol honno fynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo. Cynigir bod dalgylch Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo, o 29 Ebrill 2019, yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Tremoilet.
3. Ysgol Gynradd Gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo, sy'n darparu ar gyfer disgyblion 4-11 oed. Capasiti'r ysgol yw 65 a'r Nifer Derbyn yw 8.
4. Mae'r polisi presennol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cadarnhau y bydd cymorth â chludiant yn cael ei roi gan yr Awdurdod i ddisgyblion sy'n bodloni pob un o'r meini prawf canlynol: -
 - (a) o oedran ysgol gorfodol;
 - (b) yn mynychu'r ysgol agosaf neu'r ysgol a ddynodwyd gan yr Awdurdod Lleol; ac
 - (c) yn byw mwy na'r pellter cerdded statudol o'r ysgol, sef 2 filltir.
5. Os yw rhieni am i'w plant fynychu ysgol sydd yn cynnig yr un elfen o ran yr Eglwys yng Nghymru â'r hyn a ddarperir yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Tremoilet, eu hysgol agosaf fyddai Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn. Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg yw Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn, sy'n darparu ar gyfer disgyblion 4-11 oed. Capasiti Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yw 118 a'r Nifer Derbyn yw 14.

CARMARTHENSHERE COUNTY COUNCIL

County Hall, Carmarthen, SA31 1JP

NOTICE IS HEREBY GIVEN in accordance with Section 43 of the School Standards and Organisation Act 2013 and the School Organisation Code that Carmarthenshire County Council propose to discontinue Tremoilet Voluntary Controlled Primary School, Tremoilet, Pendine, SA33 4PJ. The school is currently maintained by Carmarthenshire County Council.

It is proposed to implement the proposal on 28 April 2019.

There were no pupils registered at Tremoilet Voluntary Controlled Primary School on 15 January 2019 (the January school census point).

From 29 April 2019 it is proposed that the catchment area of Tremoilet Voluntary Controlled Primary School, be re-designated and included within the catchment area of Llanmiloe Community Primary School, Llanmiloe, Pendine, SA33 4TU.

Llanmiloe Community Primary School is an English medium community primary school.

It will not be necessary to take any other measures to increase the number of school places.

Transport will be provided in accordance with Carmarthenshire County Council's school transport policy.

Transfer to Secondary School will remain as per current arrangements.

The implementation of the proposal to discontinue Tremoilet Voluntary Controlled Primary School is seen as the most appropriate response to address the reasons identified in formulating the proposal due to the following factors:

- There is surplus capacity at Llanmiloe Community Primary School to accept all pupils from Tremoilet Voluntary Controlled Primary School
- Have a positive impact on reducing the surplus places at Llanmiloe Community Primary School
- Supports Carmarthenshire County Council's Primary Education Footprint Principles

Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by 1 April 2019, any person may object to these proposals. Objections should be sent to Mr Gareth Morgans, Director of Education and Children's Services, Carmarthenshire County Council, Building 2, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, SA31 3HB or e-mail to DECMEP@carmarthenshire.gov.uk

Signed: Gareth Morgans

**Director of Education and Children's Services
For Carmarthenshire County Council**

Dated: 5 March 2019

EXPLANATORY NOTE

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

1. Where a school has fewer than 10 registered pupils (or there are no pupils registered at a school) at the January school census point the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 permits the local authority to undertake streamlined procedures to bring about official closure. The local authority must issue a statutory notice but the requirement for general consultation is waived, provided sufficient equivalent school places have been identified which would be reasonably accessible to those actually or potentially displaced. No pupils were registered at Tremoilet Voluntary Controlled Primary School at the January 2019 school census point.
2. The intention of the Authority is to cease to maintain Tremoilet Voluntary Controlled Primary School on 28th April 2019, to make provision for those pupils living within the current catchment area of that school to attend Llanmiloe Community Primary School. As from 29th April 2019, the catchment area for Llanmiloe Community Primary School will be extended to incorporate the current catchment area of Tremoilet Voluntary Controlled Primary School.
3. Llanmiloe Community Primary School is an English Medium Community Primary School which caters for pupils aged 4-11. The capacity of the school is 65 and the Admission Number is 8.
4. Current school transport policy confirms that assistance with transport will be provided by the Authority for pupils who meet each of the following criteria: -
 - (a) are of compulsory school age;
 - (b) attend the nearest or the school designated by the Local Authority; and
 - (c) who reside over the statutory walking distance from the school of 2 miles.
5. Should parents wish their children to attend a school offering the same Church in Wales character as is being provided at Tremoilet Voluntary Controlled Primary School their nearest school would be Laugharne Voluntary Controlled Primary School. Laugharne Voluntary Controlled Primary School is a English with significant Welsh Voluntary Controlled Primary School which caters for pupils aged 4-11. The capacity of Laugharne Voluntary Controlled Primary School is 118 and the Admission Number is 14.